OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 No. 54

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2015

RHAN 5

GRANTIAU AT GOSTAU BYW

Grant cymorth arbennig – myfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd sy'n fyfyrwyr carfan 2010 neu'n fyfyrwyr carfan 2012

42.—(1) Uchafswm y grant cymorth arbennig sydd ar gael i fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd sy'n fyfyriwr carfan 2010 neu'n fyfyriwr carfan 2012 mewn perthynas â blwyddyn academaidd yw £5,161.

(2) Mae myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd sy'n fyfyriwr carfan 2010 neu'n fyfyriwr carfan 2012 ac sydd â hawl i gael grant cymorth arbennig mewn perthynas â blwyddyn academaidd yn cael un o'r symiau a ganlyn mewn perthynas â'r flwyddyn honno—

(a) os yw incwm yr aelwyd yn £18,370 neu lai, mae'r myfyriwr cymwys yn cael £5,161;

(b) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £18,370 ond heb fod yn fwy na £26,500, mae'r myfyriwr cymwys yn cael swm sy'n hafal i **M-A**, pan fo **M** yn £5,161 ac **A** yn £1 am bob £3.653 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £18,370;

(c) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £26,500 ond heb fod yn fwy na £34,000, mae'r myfyriwr cymwys yn cael swm sy'n hafal i **RM–A** pan fo **RM** yn £2,936 ac **A** yn £1 am bob £4.18 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £26,500;

(d) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £34,000 ond heb fod yn fwy na £50,020, mae'r myfyriwr cymwys yn cael swm sy'n hafal i **SM–A** pan fo **SM** yn £1,142 ac **A** yn £1 am bob £14.67 o incwm sydd gan yr aelwyd uwchlaw £34,000;

(e) os yw incwm yr aelwyd yn £50,020, mae'r myfyriwr cymwys yn cael £50; ac

(f) os yw incwm yr aelwyd yn fwy na £50,020, nid oes unrhyw grant cymorth arbennig yn daladwy.